**Bidiau 2021/22** **Atodiad 2b**

**BIDIAU REFENIW PARHAOL 2021/22 - CATEGORI 2 YN AMODOL AR GYNYNDDU TRETH CYNGOR o 3.7%**

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) | % ar y Dreth |
|---|---|---|---|---|
| | **ADDYSG** | | | |
| Bid 15 | Cryfhau darpariaeth ADY Blynyddoedd Cynnar mewn paratoad at y ddeddfwriaeth ADY newydd | Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i roi cymorth i blant oedran 0-25 (dyletswydd presennol ar gyfer oedran 3-19 oed). Gwneir cais i greu'r swyddi isod er mwyn cyfarch y gofynion newydd:<br>* Athrawes Arbenigol<br>* Cymhorthydd Arbenigol<br>* 9 Cymorthydd 0-3 oed | 225,740 | 0.30% |
| | **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | |
| Bid 16 | Strategaeth Gadael Gofal | Ariannu ail swydd o fewn y Gwasanaeth Trothwy, fydd yn gweithio gyda'r achosion hynny sydd wedi eu hadnabod fel rhai addas i wneud gwaith pellach i weithio tuag at ddiddymu Gorchmynion Gofal neu i sicrhau lleoliad tymor hir i'r plentyn heb statws cyfreithiol o fod mewn gofal. Ac felly osgoi sefyllfa o gael rhestr aros i gwblhau'r gwaith a thrwy hynny cynorthwyo'r Adran i weithredu'n gynt ar achosion priodol. | 50,000 | 0.07% |
| | **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | |
| Bid 17 | Adnoddau ychwanegol er mwyn sefydlu Tîm 'Manual Handling' | Sefydlu Tîm 'Symud a Thrin'–<br>* 1 Uwch Ymarferydd i arwain,<br>* 2 naill ai OT / Nyrs / Ffisio,<br>* 2 weithiwr cymdeithasol<br>gydag 1 aelod ym mhob ardal Tîm Cymunedol, i sicrhau bod arweiniad ac offer priodol yn cael ei ddarparu er mwyn lleihau risg o niwed i unigolion bregus a gofalwyr. | 229,500 | 0.31% |
| | **CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL CATEGORI 2** | | **505,240** | |